Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Aelodau'n Gadael Grwpiau Gwleidyddol/Symud Rhwng Grwpiau Gwleidyddol

11 Rhagfyr 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 1 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn:

> *O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn wybod pa gostau y mae Comisiwn y Senedd wedi'u hysgwyddo yn sgil y penderfyniadau y mae Aelodau unigol o'r Senedd wedi'u gwneud i adael grwpiau gwleidyddol a ffurfio grwpiau gwleidyddol newydd ers mis Mai 2016, gan gynnwys y costau yn gysylltiedig â ffurfio a diddymu grwpiau gwleidyddol yn y Senedd.*
>
> *Mae hyn yn cynnwys costau fel:*
>
> 1. *Ail-frandio deunydd ysgrifennu (penawdau llythyrau ac ati);*
> 2. *Ail-frandio arwyddion allanol mewn swyddfeydd;*
> 3. *Taliadau diswyddo i staff cymorth (boed yn staff grŵp neu'n staff Aelod unigol);*
> 4. *Symud swyddfeydd ar ystâd y Senedd ac unrhyw waith adfer, strwythurol neu symud cyffredinol (dodrefn ac ati) yr oedd angen ei wneud i symud y swyddfa;*
> 5. *Costau gweinyddol;*
> 6. *Unrhyw wariant achlysurol arall;*
> 7. *Costau ad-drefnu strwythur ac aelodaeth pwyllgorau;*
> 8. *Amcangyfrif o'r amser gweinyddol y mae symud fel hyn yn ei olygu mewn perthynas â busnes y Comisiwn.*
>
> *Dyma restr o'r Aelodau sydd wedi newid grwpiau/wedi mynd yn annibynnol ers yr etholiad yn 2016:*
>
> – *David Rowlands AS;*
> – *Mandy Jones AS;*


Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

- *Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AS;*
- *Mark Reckless AS;*
- *Caroline Jones AS;*
- *Michelle Brown AS;*
- *Neil McEvoy AS;*
- *Gareth Bennett AS.*

Gweler ein hymateb isod

1. *Ail-frandio deunydd ysgrifennu (penawdau llythyrau ac ati);*

Y Tîm Brandio sy'n darparu templedi deunydd ysgrifennu i Aelodau'r Senedd. Ceir templedi safonol ar gyfer yr holl ddeunydd ysgrifennu (papur â phennawd, cardiau busnes a slipiau cyfarch) felly pan fydd AS yn newid plaid, caiff y templedi eu diwygio. Busnes fel arfer i'r tîm yw hyn.

2. *Ail-frandio arwyddion allanol mewn swyddfeydd;*

Os yw AS wedi hawlio am ail-frandio arwyddion allanol mewn swyddfa, caiff y wybodaeth ei chyhoeddi ar **gronfa ddata lwfansau'r Aelodau**. Noder y caiff treuliau eu cyhoeddi dri mis mewn ôl-ddyledion ac y byddant yn ymddangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn berthnasol iddi.

Er mwyn i chi allu chwilio am y wybodaeth y gofynnwyd amdani, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

- Dewiswch y flwyddyn ariannol yr ydych am ei gweld, e.e. '2019/20'
- Dewiswch y misoedd, e.e. 'Ebrill-Mawrth'.
- Dewiswch yr Aelod neu Aelodau lluosog.
- Dewiswch 'Lwfans Costau Swyddfa'
- Dewiswch yr opsiynau a ganlyn:
- 'Offer swyddfa – Prynu – Arall' a 'Cynnal a chadw'r swyddfa'
- Cliciwch 'Chwilio'
- Yna gallwch chi chwilio'r canlyniadau drwy glicio ar 'Allforio i ffeil CSV' a fydd yn agor ffeil Excel.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill, h.y. eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.

3. *Taliadau diswyddo i staff cymorth (boed yn staff grŵp neu'n staff Aelod unigol);*

Y cyfanswm a dalwyd mewn taliadau diswyddo i staff cymorth oedd £4,200.00.

4. *Symud swyddfeydd ar ystâd y Senedd ac unrhyw waith adfer, strwythurol neu symud cyffredinol (dodrefn ac ati) yr oedd angen ei wneud i symud y swyddfa;*

Cafodd swyddfeydd eu symud fel busnes fel arfer, ac nid oedd angen gwneud unrhyw waith arall.

5. *Costau gweinyddol;*

Nid oedd unrhyw gostau ychwanegol.

6. *Unrhyw wariant achlysurol arall;*

Nid oedd unrhyw gostau ychwanegol.

7. *Costau ad-drefnu strwythur ac aelodaeth pwyllgorau;*

Roedd costau ad-drefnu strwythur ac aelodaeth pwyllgorau yn fusnes fel arfer, heb unrhyw gostau ychwanegol.

8. *Amcangyfrif o'r amser gweinyddol y mae symud fel hyn yn ei olygu mewn perthynas â busnes y Comisiwn.*

Nid oes gwybodaeth wedi'i chofnodi.

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i